| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Chwarae Awyr Agored - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, meithrinfa, staff a phlant |

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

## Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /**<br>**Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *15/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Os yn berthnasol / If applicable |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 15/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn cydnabod pwysigrwydd chwarae awyr agored bob dydd a datblygiad corfforol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob plentyn fynediad dyddiol ni waeth beth fo'u hoedran a'u cyfnod datblygiad. Lle bo modd, mae hyn yn cynnwys mynediad rhydd i'r plant i'r awyr agored, gan ganiatáu iddynt y rhyddid i ddewis a ydynt eisiau chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Rydym yn darparu amgylchedd chwarae awyr agored cynhwysol gyda mannau i blant nad ydynt yn symudol, eu harchwilio'n rhydd. Rydym yn gwneud addasiadau rhesymol lle bo angen, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydyn ni'n mynd allan i chwarae gyda phob plentyn ym mhob tywydd (oni bai ei fod yn cael ei ystyried yn anniogel).

Rydym yn deall y rôl hanfodol sydd gan ddysgu yn yr awyr agored ar ddysgu a datblygiad plant yn ogystal â phwysigrwydd mynediad rheolaidd i chwarae yn yr awyr agored er mwyn cadw'n heini ac yn iach, datblygu sgiliau echddygol mawr a manwl plant, profi dysgu mewn amgylchedd naturiol a chael mynediad at olau'r haul er mwyn amsugno fitamin D yn fwy effeithiol.

Mae gan yr ardaloedd awyr agored, o fewn tiroedd y feithrinfa ac yn y gymuned leol, gyfoeth o brofiadau ac adnoddau sy'n helpu plant i ddysgu a datblygu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys annibyniaeth, sgiliau archwilio ac ymchwilio, cymryd risgiau a hunan-barch, sydd i gyd yn cefnogi plant i ddatblygu sgiliau rŵan ac ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn cymryd camau rhesymol i sicrhau diogelwch plant drwy asesiadau risg, gan gydbwyso manteision dysgu drwy ‘chwarae risg’. Mae'r math hwn o chwarae yn caniatáu i blant archwilio a dod o hyd i'w ffiniau eu hunain mewn amgylchedd diogel gydag ymarferwyr cefnogol. Hysbysir staff o bwysigrwydd gweithdrefnau diogelwch ac fe'u hyfforddir yn briodol i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dilyn yn effeithiol.

Rydym yn sicrhau bod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei oruchwylio'n ddigonol ac mae gennym wiriadau diogelwch cadarn ar waith, gan gynnwys cyfrifiadau pennau rheolaidd.

Rydym yn cael caniatâd rhieni cyn i unrhyw blentyn adael y feithrinfa yn ystod y dydd. Mae hyn yn cynnwys gwibdeithiau byr i'r gymuned leol. Mae rhagor o wybodaeth yn y polisi Ymweliadau a theithiau allan.

Rydym yn cynllunio pob cyfle a theithiau chwarae awyr agored i ategu cwricwlwm y blynyddoedd cynnar, gan ddarparu profiadau deniadol ac amgylcheddau effeithiol gyda gweithgareddau pwrpasol ac adnoddau o ansawdd sy'n cefnogi ac yn dilyn diddordebau unigol plant. Mae cydbwysedd rhwng cyfleoedd sy’n cael eu cefnogi gan oedolion a chyfleoedd sy’n cael eu harwain gan blant i alluogi plant i ddysgu ac ymarfer sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau newydd. Lle bo modd, ac yn unol ag anghenion y plant, byddwn hefyd yn aml yn cael byrbrydau a phrydau bwyd yn yr awyr agored a bydd rhai plant yn cysgu yn yr awyr agored (gweler y polisi Cysgu).

Lle caiff gweithgareddau eu cynnal i ffwrdd o'r lleoliad (e.e. yn y goedwig leol) yna bydd ffôn symudol a phecyn cymorth cyntaf y feithrinfa yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch plant bob amser. Bydd cymhorthydd cyntaf pediatrig hyfforddedig yn bresennol pan fydd plant i ffwrdd o'r prif leoliad.

Rydym yn defnyddio'r polisi hwn ochr yn ochr â'r polisïau canlynol i sicrhau diogelwch a lles plant trwy gydol eu hamser y tu allan:

- Iechyd a Diogelwch
- Gofal haul
- Gofalu am fabanod a phlant bach
- Plentyn Ar Goll
- Rhieni fel Partneriaid
- Goruchwylio plant
- Polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant
- Ymweliadau a theithiau allan.